BWRDD DIOGELU OEDOLION GOGLEDD CYMRU

NEGESEUON ALLWEDDOL

O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 MAI 2018

- Estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru i fynychu'r cyfarfod Bwrdd ac roeddent yn bresennol.

- Mae'r BDOGC wedi cael enwebiad ar gyfer Gwobr Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y gwaith yn ymwneud â phrosiect Hunan-esgeulustod ar y cyd.

- Cyflwynwyd Adroddiadau Asiantaeth Bartner Blynyddol gan Ynys Môn, Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a oedd yn adrodd ar eu cyfraniad eu hunain i'r Bwrdd, y cynnydd a wnaed yn erbyn rhaglen waith y bwrdd a'r heriau a wynebwyd.

- Bu trafodaethau yn ymwneud ag adroddiad y Gwasanaeth Cynghori ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HASCAS) ar achos Tawelfan. Rhoddwyd ymatebion i'r argymhellion o fewn yr adroddiad – Gill Harris - Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ran y bwrdd iechyd, a'r Rheolwr Busnes Diogelu ar ran y Bwrdd.

- Cafwyd diweddariad gan y Bwrdd ar gynnydd y cynllun gweithredu mewn perthynas ag archwiliad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o Uned Ablitt.